
# FY LLAIS, FY NGHYMRU

**Eich canllaw i bleidleisio yn etholiad y Senedd 2026 ddydd Iau, 7 Mai**

The Electoral Commission | Y Comisiwn Etholiadol

## PWY ALL BLEIDLEISIO?



**Gallwch bleidleisio yn etholiad y Senedd 2026 os ydych chi:**

- Yn 16 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod yr etholiad
- Wedi cofrestru i bleidleisio
- Yn byw yng Nghymru ac yn un o'r canlynol:
  - yn ddinesydd y DU neu Iwerddon
  - yn ddinesydd y Gymanwlad sydd â chaniatâd i fyw yn y DU
  - yn wladolyn tramor cymwys (gan gynnwys dinasyddion yr UE)

## Sut i gofrestru i bleidleisio:

Mae cofrestru yn broses gyflym ac fel arfer mae'n cymryd 5 munud.

**Sganiwch y cod QR i gofrestru ar-lein.**


Yn well gennych ffurflen bapur? Gofynnwch i'ch cyngor lleol.

**I gofrestru, bydd angen y canlynol arnoch:**

- Eich rhif Yswiriant Gwladol (os oes gennych un)
- Eich cyfeiriad cartref
- Eich dyddiad geni

**Dyddiad cau i gofrestru:**
**Hanner nos ddydd Llun, 20 Ebrill 2026**

## FFYRDD O BLEIDLEISIO



### Yn bersonol

- Ewch i'ch gorsaf bleidleisio leol, ar agor 7am - 10pm
- Nid oes angen ID ffotograffig arnoch

### Drwy'r post

- **Gwnewch gais erbyn 21 Ebrill 2026, 5pm**
- Caiff eich pecyn pleidleisio ei anfon i'ch cartref
- **Dychwelwch hwn erbyn 7 Mai 2026, 10pm**

### Drwy ddirprwy

- Mae rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo yn pleidleisio ar eich rhan
- **Gwnewch gais erbyn 28 Ebrill 2026, 5pm**

**I wneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, neu i gael rhagor o wybodaeth am eich etholaeth neu orsaf bleidleisio leol:**

**Ffoniwch 0800 3 280 280 neu sganiwch y cod QR.**

**Mae pleidleisio yn helpu i benderfynu pwy sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch:**
Ysgolion | Y GIG | Tai | Trafnidiaeth | Cynghorau | Gwasanaethau cyhoeddus

**Mae eich pleidlais yn helpu i lunio dyfodol Cymru.**